

Rheoli Asedau Llamu Ymlaen – Cyngor Sir Powys

Blwyddyn archwilio: 2021-22

Dyddiad cyhoeddi: Awst 2023

Cyfeirnod y ddogfen: 3743A2023

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Sir Powys fel rhan o waith a gyflawnir/i'w gyflawni yn unol ag Adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, ac Adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu weithiwr arall yn rhinwedd ei swydd unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os derbynir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer wrth ymdrin â cheisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Cynnwys

Mae'r Cyngor wedi datblygu Strategaeth Rheoli Asedau glir, ond nid yw wedi alinio ei gynllun busnes a monitro perfformiad eto.

Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Argymhellion 5

Adroddiad manwl

Mae'r Cyngor wedi datblygu Strategaeth Rheoli Asedau glir, ond nid yw wedi alinio ei gynllun busnes a monitro perfformiad eto

7

Mae gan y Cyngor Strategaeth Rheoli Asedau lefel uchel glir ar waith gyda chysylltiadau â'i Gynllun Cydraddoldeb Corfforaethol a Strategol

7

Mae'r Cyngor yn cydweithio â phartneriaid mewnol ac allanol ar fentrau hirdymor sy'n gysylltiedig ag eiddo

9

Mae'r Cyngor wedi datblygu dangosyddion perfformiad allweddol lefel uchel ond mae cyfle i alinio a gwella cynlluniau busnes a monitro perfformiad

10

Adroddiad cryno

Crynodeb

Yr hyn y gwnaethom ni ei adolygu a pham

- 1 Fe wnaethom adolygu trefniadau'r Cyngor ar gyfer rheoli ei asedau gan ganolbwyntio ar ddarpariaeth swyddfa ac adeiladau mae'r Cyngor yn darparu gwasanaethau i'w drigolion ohonynt. Fe wnaethom edrych ar sut mae'r Cyngor yn cynllunio'n strategol y defnydd o'i asedau, sut mae'n monitro'r defnydd o'i asedau a sut mae'n adolygu ac yn gwerthuso effeithiolrwydd ei drefniadau.
- 2 Fe wnaethom gyflwyno'r adolygiad hwn wrth i'r byd symud ymlaen, gan ddefnyddio'r profiadau o bandemig byd-eang COVID-19, i edrych ar sut mae cynghorau'n cryfhau eu gallu i drawsnewid, addasu a chynnal darpariaeth gwasanaethau, gan gynnwys y rhai a ddarperir mewn partneriaeth â rhanddeiliaid a chymunedau allweddol.
- 3 Rydym ni wedi ymgymryd â'r prosiect hwn ym mhob cyngor fel rhan o'n cynlluniau archwilio 2021 i helpu i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) ac adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- 4 Pan ddechreuom ein gwaith archwilio o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) fe wnaethom gydnabod y byddai'n cymryd amser i gyrff cyhoeddus ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ond fe wnaethom hefyd nodi ein disgwyliad y byddem ni'n disgwyl i gyrff cyhoeddus allu dangos sut mae'r Ddeddf yn llywio'r hyn maen nhw'n ei wneud. Mae'n agosáu at saith mlynedd ers i'r Ddeddf gael ei phasio ac rydym ni bellach yn yr ail gyfnod adrodd ar gyfer y Ddeddf. Felly, byddem yn disgwyl i gyrff cyhoeddus allu dangos bod y Ddeddf yn rhan annatod o'u ffordd o feddwl a'i bod wir yn llywio'r hyn maen nhw'n ei wneud.
- 5 O dan y Ddeddf, rhaid i gynghorau gynnal datblygu cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae gwneud rhywbeth yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy yn golygu bod rhaid i'r Cyngor weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau y bodlonir anghenion y presennol heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Er mwyn gweithredu yn y modd hwnnw, rhaid i'r Cyngor ystyried y pum ffordd o weithio: hirdymor, integreiddio, cyfranogi, cydweithio, ac atal. Mae canllawiau statudol ar y Ddeddf yn nodi saith gweithgaredd sefydliadol craidd y mae'n hanfodol cymhwysu'r egwyddor datblygu cynaliadwy iddynt. Asedau yw un o'r gweithgareddau sefydliadol craidd hynny.
- 6 Roedd gan yr adolygiad hwn dri phrif nod:
 - cael sicrwydd bod cynghorau'n rhoi trefniadau ar waith i drawsnewid, addasu a chynnal darpariaeth gwasanaethau;
 - egluro'r camau mae cynghorau'n eu cymryd yn unigol ac ar y cyd i gryfhau eu trefniadau; ac

- ysbrydoli cyngorau a sefydliadau eraill i gryfhau eu trefniadau ymhellach trwy ddal a rhannu enghreifftiau o ymarfer nodedig a dysgu a gwneud argymhellion priodol.

- 7 Fe wnaethom gynnal yr adolygiad yn ystod y cyfnod rhwng Tachwedd 2021 a Mai 2022 a'i ddiweddarau ym mis Mai 2023.
- 8 Mae gan y Cyngor ystod eang o asedau sy'n adeiladau, gan gynnwys: adeiladau gweinyddol, canolfannau hamdden, llyfrgelloedd, ysgolion, canolfannau plant, cartrefi gofal, canolfannau cymunedol, canolfannau dydd ac eiddo masnachol. Gwerth eiddo'r Cyngor, ac eithrio asedau tai a seilwaith, yw tua £421 miliwn.

Yr hyn y gwnaethom ni ei ddarganfod

- 9 Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn: Ydy dull strategol y Cyngor o ymdrin â'i asedau'n effeithiol yn helpu'r Cyngor i gryfhau ei allu i drawsnewid, addasu a chynnal darpariaeth ei wasanaethau yn y tymor byr a'r tymor hwy?
- 10 Yn gyffredinol, fe wnaethom ganfod y canlynol: Mae'r Cyngor wedi datblygu Strategaeth Rheoli Asedau glir, ond nid yw wedi alinio ei gynllun busnes a monitro perfformiad eto.
- 11 Rydym ni wedi dod i'r casgliad hwn oherwydd:
- mae gan y Cyngor Strategaeth Rheoli Asedau lefel uchel glir ar waith gyda chysylltiadau â'i Gynllun Cydraddoldeb Corfforaethol a Strategol;
 - mae'r Cyngor yn cydweithio â phartneriaid mewnol ac allanol ar fentrau hirdymor sy'n gysylltiedig ag eiddo; ac
 - Mae'r Cyngor wedi datblygu dangosyddion perfformiad allweddol lefel uchel ond mae cyfle i alinio a gwella cynlluniau busnes a monitro perfformiad.

Argymhellion

Arddangosyn 1: argymhellion

Mae'r tabl isod yn nodi'r argymhellion a nodwyd yn dilyn yr adolygiad hwn.

Argymhellion

Cynllunio Rheoli Asedau

- A1 Er mwyn gweithredu a chyflawni amcanion y Cynllun Rheoli Asedau, dylai'r Cyngor sicrhau bod aliniad rhwng y Strategaeth, Polisi a'r cynlluniau busnes fel bod y strategaeth yn ysgogi darpariaeth weithredol.

Argymhellion

Rheoli perfformiad

A2 Dylai'r Cyngor wella rheolaeth perfformiad ei asedau er mwyn sicrhau ei fod yn gwneud cynnydd ar ei Gynllun Rheoli Asedau drwy'r canlynol:

- datblygu cyfres o gamau gweithredu a mesurau o fewn y Cynlluniau Busnes Integredig Eiddo, Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd sy'n adlewyrchu uchelgeisiau'r Cyngor ar gyfer ei asedau; a
- meincnodi dulliau rheoli asedau gyda sefydliadau eraill.

Adroddiad manwl

Mae'r Cyngor wedi datblygu Strategaeth Rheoli Asedau glir, ond nid yw wedi alinio ei gynllun busnes a monitro perfformiad eto

Mae gan y Cyngor Strategaeth Rheoli Asedau lefel uchel glir ar waith gyda chysylltiadau â'i Gynllun Cydraddoldeb Corfforaethol a Strategol

- 12 Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd asedau yng nghymunedau'r sir, a'r rôl mae rheoli asedau effeithiol yn ei chwarae wrth alluogi darpariaeth gwasanaeth effeithiol. Mae'r Cyngor hefyd yn cydnabod y gall gwneud penderfyniadau sy'n ymwneud ag asedau ysgogi amcanion corfforaethol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i Gyngor sydd ag ardal ddaearyddol fawr ac mae'n caniatáu i reoli asedau ymwneud â chyfle yn ogystal â rheoli risg.
- 13 Mae gan y Cyngor asedau ar draws ystod o wasanaethau a'i fwriad oedd ad-drefnu ei sylfaen asedau cyn i'r pandemig ddechrau. Gweithredodd y Cyngor 'Strategaeth Ffyrdd Newydd o Weithio' ym mis Medi 2021 gan adeiladu ar y gwahanol ffyrdd y bu'r Cyngor yn darparu gwasanaethau ers dechrau'r pandemig. Mae ei Strategaeth Ffyrdd Newydd o Weithio wedi categorio staff yn dri grŵp gwahanol:
 - Gweithwyr sy'n Seiliedig ar Le
 - Gweithwyr sy'n Mynd o Le i Le
 - Gweithwyr Hyblyg
- 14 Cychwynnodd y Cyngor Adolygiad Asedau Strategol yn 2021. Nodau'r adolygiad oedd darparu methodoleg glir i'r Cyngor ar gyfer rheoli asedau effeithiol a chynllunio busnes a rhoi gwybodaeth feirniadol i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau allweddol i wneud penderfyniadau gwybodus. Mae'r Cyngor yng nghymunedau cynnar gweithredu ei weledigaeth ar asedau ac mae'n rhy gynnar i ddweud p'un a yw'r adolygiad wedi cyflawni ei ganlyniadau arfaethedig yn llawn.
- 15 Fe wnaeth effaith y pandemig a'r gofyniad i bobl weithio gartref lle bo hynny'n bosibl hwyluso rai o gynlluniau'r Cyngor ynghylch gweithio mwy hyblyg ac ystwyth, ac mae hyn yn effeithio ar sut mae'n defnyddio ei asedau o ganlyniad. Cymeradwyodd y Cyngor Strategaeth Rheoli Asedau lefel uchel ym mis Hydref 2022 a disgwylir iddi gael ei hadolygu yn 2025.
- 16 Mae'r Strategaeth Rheoli Asedau yn darparu man cychwyn defnyddiol ar gyfer gweledigaeth y Cyngor ar gyfer ei asedau, sef yn i raddau 'Mae caffael, rheoli, defnyddio a rhyddhau asedau eiddo yn effeithlon ac effeithiol yn hanfodol i sicrhau rheolaeth ariannol gadarn a darparu gwasanaethau cyhoeddus rhagorol.' Mae'r Strategaeth Rheoli Asedau hefyd yn rhoi arweiniad strategol i benderfynwyr y Cyngor ar reoli asedau. Ond dylai'r Cyngor ymgorffori'r weledigaeth hon yn y gwasanaeth wrth symud ymlaen i sicrhau y gall weithredu a chyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd.

- 17 Mae Strategaeth Rheoli Asedau'r Cyngor a gymeradwywyd yn ddiweddar yn cynnwys cynllun gweithredu gyda phedwar maes allweddol.
- a) Asesiadau/arolygon cyflwr
 - b) Adolygiadau Defnyddwyr a Chynlluniau Gweithredu
 - c) Polisi Rheoli Asedau newydd
 - d) Adolygiadau Asedau
- 18 Mae'r Cyngor wedi nodi y gallai cyflwr a chydymffurfiad ei asedau fod yn risg gorfforaethol os nad oes digon o refeniw ar gyfer cynnal a chadw.
- 19 Mae'r Cyngor yn ymateb i'r risg gorfforaethol sy'n ymwneud â chyflwr asedau drwy greu trefniadau o fewn y gwasanaeth i fynd i'r afael â hyn yn y tymor canolig a'r tymor hwy. Bydd hyn yn helpu i liniaru'r posibilrwydd o ddirywiad asedau anhysbys ac yn helpu cynllunio ariannol mewn perthynas â gwaith adfer ac atgyweirio. Mae'r Cyngor yn bwriadu i'w holl asedau fod yn destun asesiadau/arolygon cyflwr pellach ar gyfnod treigl o bum mlynedd o leiaf trwy greu dangosydd perfformiad allweddol perthnasol sy'n ei gwneud yn ofynnol i 100% o asedau'r Cyngor fod wedi cael asesiadau/arolygon cyflwr erbyn 2025-26.
- 20 Dull y Cyngor o reoli asedau yn y dyfodol yw gwella ymgysylltiad â defnyddwyr asedau trwy adolygiadau defnyddwyr a chynlluniau gweithredu. Mae'r Cyngor wedi datblygu dangosydd perfformiad allweddol newydd arall sy'n gofyn am adolygiadau blynyddol o brofiad defnyddwyr gwasanaethau asedau a thenantiaid o 2023-24 ymlaen. Bwriad y Cyngor yw y bydd gwybodaeth sy'n cael ei chasglu o'r adolygiadau blynyddol hyn ac unrhyw gynlluniau gweithredu cysylltiedig yn llywio 'dewis defnyddwyr a phenderfyniadau landlordiaid corfforaethol i gyflawni'r Cynllun Corfforaethol'. Bydd angen i'r Cyngor ystyried goblygiadau ymarferol cyflawni'r rhaglen fawr hon o weithgarwch yn flynyddol, gan gynnwys yr adnoddau sydd eu hangen a sut y bydd yn ymateb i'r swm a'r amllder hwn o wybodaeth.
- 21 Mae'r cynllun gweithredu o fewn y Strategaeth Rheoli Asedau yn cynnwys adolygu ac adnewyddu'r canllawiau gweithredol sy'n ymwneud â rheoli ei asedau. Mae hyn wedi'i gynnwys ym Mholisi Asedau Corfforaethol cyfredol y Cyngor a ddiweddarwyd yn 2017 ac mae'n darparu canllawiau o ddydd i ddydd ar gyfer defnyddio asedau gan wasanaethau. Mae mecanweithiau presennol o fewn Polisi Asedau Corfforaethol cyfredol y Cyngor i'r gymuned elwa o asedau'r Cyngor o dan y broses Trosglwyddo Asedau Cymunedol a chanllawiau Gwaredu Eiddo Gwag. Mae'r Polisi Asedau Corfforaethol hefyd yn cynnwys meini prawf sy'n ymwneud â'r sefydliad sy'n gobeithio cymryd yr ased drosodd, y mae'n rhaid iddo gael ei arwain gan y gymuned. Rhaid i gymunedau allu defnyddio a mwynhau unrhyw asedau sy'n cael eu trosglwyddo yn unol â chanllawiau'r Cyngor. Mae cael opsiwn i drosglwyddo asedau i grwpiau cymunedol at ddefnydd y cyhoedd yn helpu gwasanaethau'r Cyngor i gefnogi ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol Corfforaethol a'r nod o gael cymunedau sydd â chysylltiadau da.
- 22 Mae Polisi Asedau Corfforaethol presennol y Cyngor hefyd yn annog cydweithio ac ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol megis Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a'r Bwrdd Iechyd Lleol lle mae eiddo dros ben wedi'i nodi. Mae hyn yn gadarnhaol

ac yn creu cyfle i gynyddu incwm a sicrhau'r allbwn mwyaf posibl o asedau'r Cyngor a allai fel arall gael eu gadael heb eu defnyddio.

- 23 Mae diweddaru'r Polisi Asedau Corfforaethol presennol yn rhoi cyfle i'r Cyngor wella agweddau cadarnhaol y canllawiau cyfredol a chreu gwell aliniad â'r Strategaeth Rheoli Asedau sydd newydd ei diweddaru. Bydd hyn yn cryfhau'r cysylltiad rhwng y dull seiliedig ar egwyddor datblygu cynaliadwy yn y canllawiau strategol a darparu asedau'n weithredol.
- 24 Mae'r cynllun gweithredu yn ei gwneud yn ofynnol i Dîm Eiddo Strategol y Cyngor gynnal adolygiadau asedau penodol (arfarniadau) bob pum mlynedd. Pwrpas yr arfarniadau hyn yw ystyried data perthnasol a llywio argymhellion ar ddyfodol asedau penodol. Dylai hyn roi gwell sicrwydd i'r Cyngor bod asedau'n cael eu hasesu'n rheolaidd o ran eu diben a'u defnydd yn y dyfodol.
- 25 Mae'r Cyngor wedi cynllunio matrices o fewn ei Strategaeth Rheoli Asedau ar gyfer asesu'r defnydd o ased yn y dyfodol gan ddefnyddio ystod eang o ystyriaethau. Mae cysylltiadau clir rhwng yr ystyriaethau hyn a'r amcanion yng Nghynllun Corfforaethol a Strategol diwygiedig y Cyngor 'Cryfach, Tecach, Gwyrddach'.
- 26 Dylai'r adolygiad hwn sy'n seiliedig ar fatrics helpu'r Cyngor i ddangos ffordd gyson o gymhwysu meini prawf sy'n ystyried agweddau allweddol ar y Cynllun Cydraddoldeb Corfforaethol a Strategol ac elfennau o'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy. Mae'r matrices yn ystyried galw am ased yn y dyfodol ac effeithiau cymdeithasol buddsoddi mewn ased neu ei dynnu yn ôl o gymuned. Mae'r asesiad matrices yn annog y Cyngor i fyfyrion ar effaith hirdymor gwerth asedau i'w ddefnyddwyr ac ystyried beth mae asedau yn ei gynrychioli mewn cymunedau, sy'n aml yn llawer mwy na'r ased ffisegol ei hun.

Mae'r Cyngor yn cydweithio â phartneriaid mewnol ac allanol ar fentrau hirdymor sy'n gysylltiedig ag eiddo

- 27 Bwriad gweledigaeth y Cyngor yn ei Strategaeth Rheoli Asedau yw 'hyrwyddo cydweithio' yn y ffordd mae'n rheoli asedau. Mae hyn yn galluogi'r Cyngor i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd mewn meysydd fel cyllid grant a defnyddio asedau ar y cyd. Mae gan y Cyngor eisoes nifer o enghreifftiau o gydweithio asedau cyfredol gyda phartneriaid, gan adlewyrchu agweddau ar uchelgais strategol y Cyngor. Ein barn ni yw bod y Strategaeth Rheoli Asedau yn debygol o helpu i annog mwy o gydweithio asedau wrth symud ymlaen.
- 28 Mae'r Cyngor yn parhau i ddatblygu ei brosiectau asedau ar y cyd â Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, ac mae Rhaglen Lles Gogledd Powys ar y gweill ar hyn o bryd. Bydd gan y rhaglen hon gyfleusterau meddygol a hyfforddiant. Bwriad y Cyngor yw y gallai canlyniadau'r prosiect newydd hwn helpu i leddfu rhai o'i risgiau ehangach, fel diffyg adnoddau gwaith cymdeithasol, gan y bydd y cyfleuster yn darparu hyfforddiant i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol. Dyma enghraifft o'r rôl y gall asedau ei chwarae i helpu i liniaru heriau'r Cyngor yn y tymor canolig i'r tymor hir.

- 29 Mae cyflymder ac uchelgais y Cyngor wrth gydweithio ag asedau ers y pandemig wedi cynyddu, ac mae'r Strategaeth Ffyrdd Newydd o Weithio wedi creu mwy o hyblygrwydd i'r Cyngor ystyried sut mae'n defnyddio asedau. Bydd hyn yn helpu'r Cyngor i fod yn fwy ystyrlt o ran sut mae'n defnyddio asedau ac yn sicrhau'r buddion mwyaf posibl.
- 30 Mae'r Cyngor yn cydnabod, er nad ystyriaethau ariannol yw'r unig agwedd i benderfynu ar y defnydd o ased yn y dyfodol, mae'n un pwysig. Mae Adolygiad Asedau Strategol y Cyngor yn debygol o helpu i nodi unrhyw incwm a rhwymedigaethau posibl yn y dyfodol sy'n ymwneud â'i asedau. Yn 2020-21 cyflawnodd y Cyngor £2.098 miliwn ar gyfer derbyniadau cyfalaf tir corfforaethol ac eiddo yn erbyn targed gwaredu o £2 filiwn.
- 31 Mae'r Cyngor wedi integreiddio rheolaeth ei asedau i gynlluniau a strategaethau mewnol eraill, sy'n cefnogi ei ddull gweithredu ar draws y Cyngor o reoli asedau. Mae hyn yn gadarnhaol ac yn dangos pa mor hanfodol yw asedau wrth ddylunio a darparu gwasanaethau. Mae'r Strategaeth Gweithlu a Dylunio Sefydliadol ar gyfer 2020-21 yn cydnabod bod gweithio ystyrlt yn rhan sylweddol o'i dull o ymdrin ag ystyrltder sefydliadol. Mae Gweledigaeth a Strategaeth Hinsawdd Barcud Coch y Cyngor 2021-2030 yn cydnabod y rôl sydd gan ei asedau o ran sut mae'r Cyngor yn bwriadu cyflawni carbon sero erbyn 2030 a dod yn garbon positif-net y tu hwnt i 2030. Mae pum maes allweddol o fewn y Weledigaeth a'r Strategaeth Hinsawdd ac mae 'Adeiladau' yn un ohonynt, gyda'r nod o wneud ynni'r ystâd yn effeithlon a thrwy ddefnyddio atebion ynni adnewyddadwy.

Mae'r Cyngor wedi datblygu dangosyddion perfformiad allweddol lefel uchel ond mae cyfle i alinio a gwella cynlluniau busnes a monitro perfformiad

- 32 Mae'r Cyngor wedi datblygu cyfres newydd o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol lefel uchel fel rhan o'r cynllun gweithredu yn y Strategaeth Rheoli Asedau. Mae'r rhain yn ymwneud â'r canlynol:
- Canran yr asedau sydd ag asesiad cyflwr neu arolwg cyflwr o fewn y pum mlynedd diwethaf:
 - 2023-24 ymlaen – mae 100% o ardaloedd gwasanaeth a thenantiaid yn cael adolygiad asedau blynyddol gyda phwyntiau gweithredu clir fel y bo'n briodol; a
 - 2023-24 – mae o leiaf 25% o asedau wedi cael adolygiad asedau o fewn y pum mlynedd diwethaf (gyda'r targed hwn yn codi i 100% erbyn 2026-27).
- 33 Nid yw'r Cyngor wedi datblygu llinell glir eto rhwng ei Strategaeth Rheoli Asedau strategol, ei Bolisi Rheoli Asedau gweithredol wedi'i ddiweddarau, a'i gynlluniau busnes integredig lefel gwasanaeth. Ar hyn o bryd, mae gan y cynllun busnes integredig ar gyfer Eiddo, Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd nodau perfformiad lefel uchel gan gynnwys 'cael gwasanaeth eiddo strategol cost-effeithiol ac effeithlon' a 'gweithredu system TG newydd'. Fodd bynnag, byddai alinio cliriach rhwng

strategaeth, camau gweithredu a mesurau yn sicrhau bod y gwasanaeth yn gweithio tuag at yr uchelgeisiau strategol ac yn hwyluso atebolrwydd clir.

- 34 Nid yw'r Cyngor wedi datblygu'r nodau perfformiad hyn gyda'r egwyddor datblygu cynaliadwy mewn golwg. Mae dull ehangach y Cyngor o ymdrin ag asedau'n canolbwyntio ar gydweithio a chyfranogiad ac mae cyfle i sicrhau bod y meddylfryd hwn, yn ogystal ag ystyried ffyrdd eraill o weithio, hefyd yn llywio eu camau cynllunio busnes.
- 35 Sefydlodd y Cyngor Fwrdd Asedau Strategol mewnol cyn y pandemig gan gynnwys yr Aelod Cabinet perthnasol, Penaethiaid Gwasanaeth a swyddogion perthnasol i drafod a monitro'r gwaith sy'n ymwneud ag asedau. Mae'r Bwrdd yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar gynnydd yr Adolygiad Asedau Strategol. Hyd yn hyn, adroddwyd ar ganfyddiadau lefel uchel i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y Tîm Rheoli Gweithredol a'r Cabinet. Fodd bynnag, nid yw'r pwyllgor craffu perthnasol yn cael diweddariadau rheolaidd ar gynnydd yr Adolygiad Asedau Strategol a'i effaith, sy'n cyfyngu ar drosolwg y maes pwysig hwn.
- 36 Dywedodd y Cyngor wrthym ei fod yn cael trafodaethau dysgu anffurfiol am ei ddull o reoli asedau, fodd bynnag, nid yw'n dal y dysgu na'r data hwn yn ffurfiol i lywio penderfyniadau yn y dyfodol. Nod y Cyngor yw gwella hyn o fewn ei system TG newydd a allai hefyd gryfhau monitro ac adolygu.
- 37 Nid yw'r Cyngor yn meincnodi ei berfformiad yn rhagweithiol mewn perthynas â rheoli asedau ac mae'n cydnabod bod hwn yn faes y dylai ei ddatblygu. Bydd hyn yn ei helpu i benderfynu p'un a yw'n darparu gwerth am arian a chyfleoedd i wella.



Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: info@audit.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.